**Jeremy Miles AS/MS**
**Gweinidog y Gymraeg ac Addysg**
**Minister for Education and Welsh Language**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Jayne Bryant AS
Cadeirydd, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

1 Rhagfyr 2023

Annwyl Jayne

**Darparu Prydau Ysgol am Ddim yn y Gwyliau**

Diolch am eich llythyr dyddiedig 25 Hydref yn rhannu eich pryderon am ddarparu prydau ysgol am ddim yn ystod gwyliau'r ysgol, fel y'i codwyd yng nghyfarfod y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ar 14 Medi. Rwy'n ymwybodol o'r llythyr o dan sylw gan y naw elusen ac ymatebais i'r llythyr ym mis Awst eleni.

Gwnaed penderfyniad ym mis Mawrth 2023 i ymestyn y ddarpariaeth prydau ysgol am ddim yn ystod y gwyliau tan ddiwedd gwyliau hanner tymor mis Mai 2023. Roedd yn amlwg mai'r estyniad hwn oedd y cyfan y gallai Llywodraeth Cymru ei fforddio, er gwaetha'r ffaith ein bod yn deall yr effaith ar deuluoedd dros wyliau'r haf yn iawn.

Cyn gwyliau'r haf, ysgrifennom at Awdurdodau Lleol i'w hannog i gyfeirio teuluoedd at yr holl ddarpariaethau lleol sydd ar gael iddynt; gan gynnwys cynlluniau haf a darpariaeth a gynigir gan sefydliadau trydydd sector a'r sector gwirfoddol. Yn ystod yr haf, trefnwyd bod ystod eang o gynlluniau ar gael ym mhob ardal awdurdod lleol i gefnogi plant a phobl ifanc.

Mae'r Rhaglen Gwella Gwyliau’r Haf (SHEP) a ariennir gan Lywodraeth Cymru, sydd wedi'i brandio fel ycynllun 'Bwyd a Hwyl', yn cael ei rhedeg mewn ysgolion ac yn gweithredu yn ystod gwyliau'r haf. Yn ystod Haf 2023, cymerodd 265 o ysgolion ran mewn 175 o gynlluniau SHEP gan ddarparu 11,100 o leoedd i ddysgwyr ar bob diwrnod yr oedd yn gweithredu. Roedd y cynlluniau'n rhedeg am o leiaf 12 diwrnod ar draws pob un o'r 22 awdurdod lleol. Yn ogystal, mewn ymateb i'r argyfwng costau byw, yn ystod yr Haf hwn cynigiodd y mwyafrif o awdurdodau lleol 'fag bwyd' (bag sy'n cynnwys hanfodion y pantri) i ddysgwyr fynd â nhw adref. Bydd y ffigurau pendant y lefelau cyfranogiad ar gael yn ddiweddarach yn yr Hydref yn dilyn cyflwyno data gan awdurdodau lleol i Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC) sy'n rheoli SHEP.

Sefydlwyd y Prosiect Gwyliau Gwaith Chwarae gwerth £1m i fynd i'r afael â llwgu yn ystod y gwyliau drwy ddarparu bwyd / byrbrydau iach am ddim mewn cynlluniau chwarae yn ystod gwyliau'r ysgol gyda'r opsiwn o gynyddu'r ddarpariaeth chwarae bresennol yn ystod y gwyliau. Mae'r cyllid yn cael ei rannu yn ôl fformiwla rhwng y 22 awdurdod lleol. Mae'r cynllun yn targedu ardaloedd difreintiedig, a gall weithredu ym mhob cyfnod gwyliau ysgol, yn ôl disgresiwn awdurdodau lleol yn unol â'r blaenoriaethau a nodwyd yn eu Hasesiad Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Jeremy.Miles@llyw.cymru
Correspondence.Jeremy.Miles@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Rydym yn gwybod bod pum Awdurdod Lleol wedi darparu math o ddarpariaeth Prydau Ysgol am Ddim i ddysgwyr cymwys yn ystod y chwe wythnos o wyliau haf yn 2023. Fodd bynnag, nid ydym yn cadw data ar y darpariaethau nad ydynt yn cael eu hariannu gan Lywodraeth Cymru

Yn ddiweddar, ystyriais a ddylid adfer cyllid ar gyfer darpariaeth prydau ysgol am ddim yn ystod y gwyliau ar gyfer hanner tymor mis Hydref a gwyliau ysgol dilynol. Yn anffodus, oherwydd y pwysau ariannol sylweddol sy'n wynebu cyllideb Cymru, mae'r ddarpariaeth o brydau ysgol am ddim yn ystod y gwyliau wedi dod i ben am gyfnod amhenodol.

Rydym yn gwneud popeth o fewn ein gallu i gefnogi pobl drwy'r argyfwng costau byw drwy dargedu cymorth at y rhai sydd ei angen fwyaf a thrwy raglenni a chynlluniau sy'n rhoi arian yn ôl ym mhocedi pobl. Mae hyn yn cynnwys gwybodaeth am yr hyn sydd ar gael yn eu hardal leol yn ogystal ag adnoddau i helpu gyda chostau byw. Yn ystod 2022-23 a 2023-24 rydym wedi buddsoddi mwy na £3.3bn mewn rhaglenni a chynlluniau sy'n rhoi arian yn ôl ym mhocedi pobl.

Byddwn yn parhau i fonitro'r sefyllfa ynghylch costau byw er mwyn cefnogi teuluoedd a sicrhau ein bod yn cyflawni ein hymrwymiad nad oes unrhyw blentyn yn mynd heb fwyd.

Diolch ichi am eich cefnogaeth barhaus.

Yr eiddoch yn gywir,

**Jeremy Miles AS/MS**
Gweinidog y Gymraeg ac Addysg
Minister for Education and Welsh Language